**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/DB/11299/25

Russell George, AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Buffy Williams, AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

24 Ionawr 2025

Annwyl Gadeiryddion,

**Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol/Strategaeth Genedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol ar gyfer Plant**

Un o elfennau craidd ein Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghymru yw'r ymrwymiad i ddarparu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Yr angen i wella cysondeb ymarfer ledled Cymru oedd y rhesymeg y tu ôl i ddatblygu'r Fframwaith hwn, a chefnogi ffordd o weithio sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Mae sgwrs genedlaethol wedi bod yn digwydd gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i blant ledled Cymru gan gynnwys y trydydd sector, yr heddlu, byrddau diogelu yn ogystal â chyrff cenedlaethol gan gynnwys y Comisiynydd Plant. Roedd yr ymgysylltiad a'r ddeialog agored hon yn canolbwyntio ar gasglu barn a thystiolaeth ynghylch sut y gall Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol ychwanegu'r gwerth mwyaf. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf rydym wedi rhannu dau bapur ymgysylltu. Mae'r papurau yn amlinellu nod y Fframwaith a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol yn ogystal â drafftiau o'r safonau a argymhellir.

Roedd yr adborth a gawsom yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol defnyddio'r gwaith hwn i gryfhau gwaith amlasiantaethol, yn seiliedig ar 5 safon strategol: Seilwaith Amlasiantaethol, Strategaeth Amlasiantaethol, Dysgu Amlasiantaethol, Llywodraethu Amlasiantaethol a Chyflenwi Amlasiantaethol. Er mwyn adlewyrchu'r dull strategol hwn, mae teitl y Fframwaith wedi newid i “Strategaeth Genedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol ar gyfer Plant”.

Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith o hyd, gan gynnwys cryfhau atebolrwydd cyffredin ar gyfer ymarfer amlasiantaethol gyda mwy o eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau a pherchnogaeth o’r strategaeth. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni fod â threfniadau llywodraethu clir ar waith i oruchwylio gweithredu, gan sicrhau nad yw’r rhain yn cynyddu biwrocratiaeth nac yn achosi dryswch.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein bwriad gwreiddiol oedd cyhoeddi'r Fframwaith erbyn diwedd 2024. Fodd bynnag, fel y nodwyd, beth mae'r adborth o'n hymgysylltiad yn ei ddweud wrthym yw na all y Fframwaith fod yn ddogfen annibynnol ac mae angen rhagor o waith i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar y cyd, nodiadau ymarfer ac adnoddau ar gyfer ymarferwyr rheng flaen sy'n defnyddio'r gyfres wreiddiol o safonau, er enghraifft "plant a phobl ifanc sydd ar goll", gyda chanllawiau ategol ychwanegol.

Er mwyn rhoi amser i gryfhau'r Strategaeth a'r 5 safon amlasiantaethol, yn ogystal â datblygu'r adnoddau ychwanegol a amlinellir uchod, byddwn yn gweithio i gyhoeddi'r Strategaeth a'r set gyntaf o nodiadau ymarfer ym mis Ebrill eleni. Yna bydd nodiadau ymarfer pellach yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2025. Ym mis Ebrill byddwn hefyd yn dechrau gweithio ar ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar y cyd.

Roeddwn i eisiau rhannu'r diweddariad hwn gyda chi a phwysleisio pa mor bwysig ydyw ein bod ni'n cael y Strategaeth hon yn iawn, ac yn cael y cymorth adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei nod. Byddaf hefyd yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn rhannu'r amserlen hon.

Yn Gwyr,



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care